Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Glan Ceubal
Colwill Rd
Gabalfa
CF14 2QQ

16/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Glan Ceubal yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion, staff ac aelodau’r corff llywodraethol, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau bod gweithdrefnau i gefnogi cynnydd gwybodaeth a mwynhad disgyblion wrth ddarllen llyfrau a thestunau Cymraeg

- Mae’r ysgol wedi blaenoriaethu datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion wrth gynllunio gwelliant yr ysgol. Trwy gynllunio priodol, dysgu proffesiynol perthnasol a gweithgareddau monitro addas, mae arweinwyr yn dechrau datblygu ymagwedd fwy cyson at addysgu disgyblion sut i ddarllen. Er hyn, nid yw’r prosesau monitro yn ffocysu’n ddigon bwriadus ar effaith y datblygiadau ar y dysgu a’r addysgu. O ganlyniad, nid yw’r ddarpariaeth yn ddigon cyson ac adeiladol ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd dyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen yn addas. Mae’r cyfleoedd yn cynnwys gweithgareddau priodol i ddatblygu eu medrau darllen uwch. Trwy hyn, mae disgyblion yn dechrau datblygu dealltwriaeth o ystod o strategaethau darllen uwch ac yn eu defnyddio i ddatgymalu ac adeiladu geiriau anghyfarwydd, i ddadansoddi ac i grynhoi testunau y maent yn eu darllen.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu’r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Yn ddiweddar, mae'r staff yn dechrau datblygu ethos o hoffter at ddarllen ymysg disgyblion. Maent yn trefnu digwyddiadau cyffrous, fel ymweliadau gan awduron a gornestau llyfrau. At ei gilydd, mae disgyblion yn dangos mwynhad at ddarllen testunau Cymraeg sy'n eu cefnogi i ymchwilio i wybodaeth a chysyniadau mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.
- Mae'r disgyblion yn siarad gyda pheth hyder am eu hoffter o wahanol nofelau ac yn trafod cymeriadau, plot a chynnwys nofelau yn hyderus. Er hyn, nid yw ymwybyddiaeth disgyblion o awduron a llenyddiaeth Cymreig wedi datblygu yn ddigon llwyddiannus.
- Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu dealltwriaeth addas o seiniau llythrennau ac yn dechrau cymhwyso'r wybodaeth hon yn fedrus i ddarllen ac ysgrifennu geiriau syml. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn dechrau adeiladu ar hyn yn briodol i sillafu geiriau anghyfarwydd ac i ysgrifennu gyda hyder cynyddol.
- Mae dadansoddiadau cyson o asesiadau cynnydd disgyblion yn cefnogi athrawon i gynllunio ar gyfer datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion yn briodol.

## Datblygu rôl strategol y llywodraethwyr er mwyn iddynt weithredu'n fwy strategol

- Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, ac maent yn adnabod ei chryfderau a'r meysydd i'w gwella yn dda.
- Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cael cyfleoedd rheolaidd i fonitro elfennau o'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae hyn yn dechrau gwella eu dealltwriaeth o gynnydd a chyflawniad disgyblion, ac yn eu harfogi i gefnogi a herio'r staff ar elfennau o'u gwaith. Mae hyn yn arwain at eu gallu i gyfrannu'n fwy strategol a bwriadus at brosesau hunanwerthuso'r ysgol.
- Wrth benodi aelodau newydd i'r corff, maent yn sicrhau bod ganddynt drawstoriad eang o fedrau sy'n fuddiol i'w cefnogi i arwain yn gynyddol strategol dros amser. Maent wedi adnabod yr angen i fanteisio ymhellach ar y cryfder hwn fel bod pob aelod yn ymgymryd â'u rôl yn fwy gweithredol ym mhrosesau monitro a gwerthuso'r ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6812325

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol